Unigrwydd

Darlleniad: Mathew 25: 31-46

Cyfeiriwn ein meddyliau atat ti, O! Dad, yn ein gweddi'n awr. Dyro inni'r ysbryd i weddïo fel ag y dylem. Gogoneddwn dy enw am yr hyn wyt ti, sef Duw cadarn a nerthol i bob un ohonom, y Duw a'i daearodd ei hun mor wyrthiol yn ei Fab Iesu Grist, ac a ddaeth yn ryfeddol o agos trwy ddod yn un ohonom ni.

Mawrygwn a chlodforwn di am iti amlygu dy hun trwy'r proffwydi ac 'yng nghyfiawnder yr amser' ddisgleirio dy wyneb yn gyflawn yn Iesu Grist. Daethost yn agos yng Nghrist Iesu a phontiaist y gagendor ynddo a thrwyddo ef. Cydnabyddwn yn wylaidd na fuasem yr hyn ydym, oni bai amdanat ti. Derbyn felly, ein diolch a'n parch.

Gweddïwn yn arbennig dros y sawl sy'n teimlo'n unig a gwrthodedig yn y byd. Profodd dy fab dy hun, O! Dduw, wewyr unigrwydd pan oedd ar y ddaear hon.

> 'Bûm yn newynog ac ni roesoch fwyd imi; bûm sychedig ac ni roesoch ddiod imi; bûm yn ddieithr ac ni chymerasoch fi i'ch cartref, yn noeth ac ni roesoch ddillad amdanaf, yn glaf ac yng ngharchar ac nid ymwelsoch â mi.'

Dyna oedd ei brofiad ef.

Gwridwn gydag euogrwydd, O! Dad, ein bod ni heddiw'n gyfrifol o'i esgymuno o'n bywyd ac o'i fyd, ac o'r herwydd yn esgymuno'n cyd-ddyn yn ogystal. Gweddïwn, O! Dduw, am ras i fwydo'r newynog, i estyn diod i'r sychedig, i roi lloches i'r digartref, i ddilladu'r noeth ac ymgeleddu'r sawl sy'n glaf a chaeth.

Cofiwn yn arbennig am y sawl sy'n garcharorion i'w cartref ac i'w cymuned oherwydd amgylchiadau arbennig. Bydd yn gwmni iddynt, O! Dad, ym mha le bynnag y bônt a phwy bynnag ydynt.

Gweddïwn gyda John Roberts, pan ganodd:

‘Pan fwyf yn teimlo’n unig lawer awr,
Heb un cydymaith ar hyd llwybrau’r llawr,
Am law fy Ngheidwad y diolchaf i,
Â’i gafael ynof er nas gwelaf hi.

Pan fyddo beichiau bywyd yn trymhau,
A blinder byd yn peri im lesgáu;
Gwn am y llaw a all fy nghynnal i,
Â’i gafael ynof er nas gwelaf hi.’

Boed inni deimlo’r llaw sy’n gafael ynom yn awr, O! Dduw, er mwyn troi’r nos yn ddydd, anobaith yn obaith, pryder yn hyder ac unigrwydd yn gwmnïaeth.

Cofia, felly, O! Dad, y sawl sy’n ddigwmni, yn ddigymydog, yn ddiymgeledd ac yn ddiamddiffyn yn y byd. Agor ein llygaid a theneua’n clustiau i weld a chlywed cri ein cyd-ddynion. Maddau inni am eu hesgeuluso, a gwna ni’n debyg i Iesu yn ein hawydd i’w hadfer yn ôl i’r gymdeithas.

Clyw ni yn ein gweddïau. Rhagora lawer arnynt. Maddau i ni ein camweddau a’n hanwireddau. Maddau bopeth annynol, angharedig ac anghristnogol sydd ynom. Gofynnwn hyn yn enw ac yn haeddiant ein Harglwydd Iesu Grist, dy Fab, ein Prynwr. Amen.

Eric Williams